

Annwyl Landlord/Asiant

Dysgwch fwy am weithgareddau Rhentu Doeth Cymru; camau gorfodi, newidiadau i'r ddeddfwriaeth, diweddariadau gan bartneriaid ynghyd â digwyddiadau a chyrtsiau i'ch cefnogi chi.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru



Ymestyn y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir cyn troi tenant allan heb fai

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i wneud mwy i fynd i'r afael â'r problemau ynghylch troi allan heb fai. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i landlordiaid gael meddiant o'r eiddo heb achos o dorri contract gan roi dau fis o rybudd i'r tenant yn unig.

I wneud hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i geisio cael eich barn ar y canlynol:

- Ymestyn y cyfnod rhoi rhybudd o ddau fis i chwe mis;
- Atal y landlord rhag rhoi rhybudd troi allan heb rybudd o fewn chwe mis cyntaf y contract;
- Rhoi cyfyngiad o chwe mis ar roi rhybudd troi allan heb fai yn dilyn terfyn rhybudd blaenorol a mwy...

[Darllen y datganiad >>](#)

[Cyflwyno ymateb >>](#)

Cyrsiau hyfforddi

Cwrs Newydd

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Sector Rhentu Preifat



Mae Rhentu Doeth Cymru (RhDC) wedi datblygu cwrs newydd ar y cyd â Phrosiect Drws Agored Tai Pawb. Mae'r cwrs yn awr ar gael yn eich cyfrif RhDC.

Beth allwch chi ei ddisgwyl?

- Trosolwg o ddeddfwriaeth berthnasol a'r gwahanol fathau o wahaniaethu
- Gweithio gyda thenantiaid sydd â nodweddion a ddiogelir
- Canllawiau ar Addasiadau a Hygyrchedd

[Cymerwch y cwrs >](#)

Wyddoch chi?

Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Mae Tyfu Tai Cymru â Tai Pawb wedi cyhoeddi ymchwil ar iechyd meddwl sy'n cefnogi'r Sector Rhentu Preifat.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu'r canlynol:

- Mae dau allan o dri landlord wedi cael denant â phroblemau iechyd meddwl.
- Mae bron i 50% o landlordiaid yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i gynorthwyo eu tenantiaid.
- Mae landlordiaid yn awyddus i gael gwell gwybodaeth a chefnogaeth.
- Mae tystiolaeth bendant bod ymyrraeth gynnar yn helpu pobl i gynnal eu tenantiaethau.

[Gweld y canlyniadau >>](#)

Adnoddau i'ch helpu

Diogelu Blaendal y Denantiaeth

Fel landlord rheoli neu asiant, mae dyletswydd gyfreithiol anoch chi ac mae'n amod o'ch trwydded eich bod yn talu unrhyw flaendal diogelu i gynllun blaendal tenantiaeth, sy'n cael ei gefnogi gan y llywodraeth, o fewn 30 diwrnod o'i dderbyn.

Mae tri cynllun blaendal sydd wedi'u cymeradwyo yng Nghymru a Lloegr:

- [MyDeposits](#)
- [Deposit Protection Service](#)
- [Tenancy Deposit Scheme](#)

Mae pob cynllun yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu gyda rheoli eiddo. Dyma enghraifft:



Canllaw am ddim - Traul: Beth sy'n deg?

Mae traul normal bob amser yn ardal lwyd i landlordiaid ac asiantaethau gosod tai. Yn y canllaw defnyddiol hwn mae **mydeposits** yn darparu gwybodaeth werthfawr i helpu landlordiaid ac asiantau ddeall yr hyn sy'n cael ei ystyried yn rhesymol a sut y gellir barnu hyn drwy ystyried rhai meini prawf.



[Cael y canllaw >](#)

Diweddariad Rhentu Doeth Cymru



+ 100,000
landlordiaid
wedi cofrestru



+ 202,000
eiddo rhentu
wedi cofrestru



525
HCB

[Gwiro'r gofrestr >>](#)

[Ystadegau gorfodi >>](#)

Newyddion gan bartneriaid



Cefnogi'r rheini sy'n hawlio Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol (UC) yn newid mawr i'r system fudd-daliadau ac mae'n bwysig eich bod yn deall beth mae'n ei olygu i'ch tenantiaid.

Yma, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi trosolwg sydyn i chi o brif agweddau ar Credyd Cynhwysol a sut i sicrhau bod y ceisiadau'n cael eu prosesu mor esmwyth a chyflym a phosibl.

[Darllenwch yr erthygl lawn >>](#)

